# Dechrau arni



## Troi syniad yn weithred

Os ydych chi'n ystyried sefydlu gr p newydd, y peth cyntaf y dylech chi ei wneud yw ychydig o waith ymchwil cyn i chi ddechrau. Dyma rai cwestiynau allweddol y bydd angen i chi feddwl amdanynt:

- A oes yna wir angen am eich gr p ac a oes tystiolaeth i gefnogi hyn?
- Beth mae pobl eraill eisoes yn ei wneud yn eich ardal leol?
- Beth sy'n eich cymell i sefydlu eich gr p?
- A oes gennych chi'r amser a'r ymrwymiad i sefydlu a rhedeg y gr p?
- Sut byddwch chi'n cael pobl eraill i gymryd rhan mewn rhedeg a chefnogi'r gr p?

### Ffynonellau eraill o wybodaeth

NCVO – Penderfynu sefydlu mudiad elusennol newydd (Saesneg yn unig)

## Beth yw diben eich gr p?

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n nodi diben eich gr p yn glir ar y dechrau. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd diben eich gr p yn dylanwadu ar y strwythur a ddewisir a'r math o fudiad y gallai ddatblygu i fod, er enghraifft, a allai gael ei alw'n 'elusen' neu beidio.

Dylech ddechrau drwy weithio trwy eich syniadau er mwyn sicrhau eich bod wedi nodi diben eich gr p yn glir. Meddyliwch am y gwahaniaeth y mae eich gr p yn mynd i'w wneud. Bydd angen i chi fod yn glir ynghylch y canlynol:

- BETH mae eich gr p yn mynd i'w wneud
- BLE ydych chi eisiau ei wneud
- PWY fydd yn elwa
- A SUT

Yn ddelfrydol ar y pwynt hwnt, dylech chi nodi hyn ar bapur a llunio cynllun syml sy'n egluro'r hyn rydych chi eisiau ei wneud, pam eich bod eisiau ei wneud a sut byddwch chi'n ei wneud. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio eich gwaith a bydd hefyd yn dylanwadu ar y dewisiadau y byddwch chi'n eu gwneud ynghylch strwythur eich gr p. Unwaith y bydd eich gr p ar waith, byddem yn argymell eich bod yn datblygu'r cynllun hwn i fod yn ddogfen ehangach, y byddwn ni'n ei galw'n gynllun busnes. Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran Rhedeg eich mudiad.